Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2019

Amser: 09.23 – 11.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5763

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Angela Burns AC Helen Mary Jones AC Lynne Neagle AC David Rees AC
Tystion:	Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Albert Heaney, Llywodraeth Cymru Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru Sarah Tyler, Llywodraeth Cymru Emma Parfitt, Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban David Sturgeon, Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban

	Dr Matthew Lee, Yr Undeb Amddiffyn Meddygol Mary-Lou Nesbitt, Yr Undeb Amddiffyn Meddygol
Staff y Pwyllgor:	Sarah Beasley (Clerc) Lowri Jones (Dirprwy Glerc) Amy Clifton (Ymchwilydd) Philippa Watkins (Ymchwilydd) Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y rhaglen ymgysylltu y mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn ei chynnal fel rhan o'r ymgynghoriad a fydd yn llywio'r Cod Ymarfer.

2.3 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch cyhoeddi cofrestr meddygon teulu ar gyfer awtistiaeth a chyhoeddi data am amseroedd aros ar gyfer plant a phobl ifanc.

3 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor, fuddiant fel meddyg teulu sydd wedi talu indemniad meddygol yn y gorffennol. Cadarnhaodd nad oes unrhyw fuddiant penodol ar hyn o bryd gan fod indemniad bellach yn cael ei dalu ar lefel practis, ac nid ar lefel bersonol.

3.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.3 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch trosglwyddo asedau.

4 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Sefydliadau Amddiffyn Meddygol

4.1 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor, fuddiant.

4.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sefydliadau Amddiffyn Meddygol.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Pwysau Iach: Cymru Iach

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch hawliau plant yng Nghymru

5.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y Cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

7 Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth ac ystyried themâu sy'n codi

7.1 Nododd y Pwyllgor y themâu allweddol i'w cynnwys yn yr adroddiad drafft.

8 Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad.